Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Hysbysiad preifatrwydd

## Hydref 2009

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith/rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

‰ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

# Hysbysiad preifatrwydd

## Sut y defnyddiwn eich gwybodaeth

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan fydd Estyn yn casglu gwybodaeth bersonol. Mae'n gymwys i wybodaeth yr ydym yn ei chadw am:

- unigolion mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau Estyn;
- pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau;
- ymwelwyr â'n gwefan;
- unigolion a gyflogir gan Estyn; ac
- unigolion a ddefnyddir gan Estyn dan gontract neu gytundeb.

## Unigolion mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau Estyn

Wrth gyflwyno ein gwasanaethau, pa un a yw hynny'n cynnwys cynnal arolygiad neu'n ymchwilio i eitem cylch gwaith, byddwn yn creu ffeil gofrestredig sy'n cynnwys manylion y gweithgaredd; gall y cyfryw ffeiliau gynnwys enwau'r unigolion sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd. Er enghraifft, gall gwybodaeth a gesglir yn ystod y broses arolygu neu mewn digwyddiadau hyfforddi gynnwys data personol, ac yn yr un modd, gall gwybodaeth a gesglir ar gyfer talu am wasanaethau mewn perthynas ag arolygu nodi data personol.

Pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiadau arolygu unigol ac adroddiadau cylch gwaith, maent yn cynnwys enwau aelodau'r tîm sy'n gyfrifol am yr adroddiad.

Mae Estyn yn anfon cyhoeddiadau allan i randdeiliaid ac mae'n cadw gwybodaeth am randdeiliaid sydd wedi eu cofrestru ar ein fforymau, a gall hynny gynnwys gwybodaeth bersonol. Mae Estyn hefyd yn cadw gwybodaeth bersonol sensitif yn gysylltiedig â materion diogelu.

Dim ond i brosesu'r gweithgaredd ac i wirio lefel y gwasanaeth a ddarparwn y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwn. Rydym yn casglu ac yn cyhoeddi ystadegau sy'n dangos gwybodaeth fel nifer y bobl sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi Estyn, ond ni ellir adnabod unrhyw unigolion o'r data hwnnw.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau cofrestredig yn unol â'n polisi cadw cofnodion a'r atodlen http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_records_retention_policy_and_schedule_march_2008.pdf Caiff y wybodaeth ei chadw mewn amgylchedd diogel a chyfyngir mynediad ati yn unol â'r egwyddor 'angen gwybod'.

## Pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau

Gall unigolion gysylltu â ni i gael gwybodaeth trwy gyflwyno ymholiad neu drwy wneud cwyn. Mae'n rhaid i ni gadw manylion y bobl sy'n defnyddio'r cyfryw wasanaethau er mwyn ymateb. Dim ond i ddarparu'r gwasanaeth y gofynnodd yr

unigolyn amdano ac i ddelio ag unrhyw faterion dilynol a gwirio lefel y gwasanaeth a ddarparwn y byddwn yn defnyddio'r manylion hyn. Er enghraifft, rydym yn monitro cyfran y cwynion yr ymatebir iddynt gyda graddfeydd amser targed, neu'n monitro nifer y ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir o dan y Ddeddf Diogelu Data.

## Ymwelwyr â'n gwefan

Pan fydd rhywun yn ymweld â'n gwefan, byddwn yn casglu gwybodaeth safonol logio ar y rhyngrwyd a manylion am batrymau ymddygiad ymwelwyr. Gwnawn hyn er mwyn canfod pethau fel nifer yr ymwelwyr â rhannau amrywiol o wefan Estyn. Casglwn y wybodaeth hon mewn ffordd nad oes modd adnabod unrhyw un. Ni wnawn unrhyw ymdrech i ganfod pwy sy'n ymweld â'n gwefan.

Defnyddiwn fersiwn 6.7 Advanced Web Statistics (Awstats) i helpu i ddadansoddi'r defnydd o'n gwefan. Mae'r cyfrwng dadansoddol hwn yn defnyddio 'cwcis', sef ffeiliau testun a roddir ar eich cyfrifiadur, i gasglu gwybodaeth safonol logio ar y rhyngrwyd a gwybodaeth am ymddygiad ymwelwyr mewn ffordd nad yw'n enwi neb. Mae'r wybodaeth a gynhyrchir gan y cwci am eich defnydd o'r wefan (gan gynnwys eich cyfeiriad Protocol Rhyngrwyd (IP)) yn cael ei drosglwyddo i Awstats. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio wedyn i werthuso defnydd ymwelwyr o'r wefan ac i lunio adroddiadau ystadegol ar weithgaredd y wefan i Estyn.

Ni fydd Estyn yn defnyddio (ac ni fydd yn caniatáu i unrhyw drydydd parti ddefnyddio) y cyfrwng dadansoddi ystadegol i olrhain nac i gasglu unrhyw wybodaeth am ymwelwyr â'n safle y gellir eu hadnabod yn bersonol ohoni. Ni fyddwn yn cysylltu unrhyw ddata a gesglir o'r wefan hon gydag unrhyw wybodaeth y gellir adnabod rhywun yn bersonol ohoni o unrhyw ffynhonnell fel rhan o'n defnydd o gyfrwng dadansoddi ystadegau Awstats. Ni fydd Awstats yn cysylltu eich cyfeiriad IP ag unrhyw ddata arall a gedwir gan Awstats. Ni fydd Estyn nag Awstats yn cysylltu, nac yn ceisio cysylltu, cyfeiriad IP gydag adnabyddiaeth defnyddiwr cyfrifiadur.

Mae'r peiriant chwilio ar ein gwefan wedi'i ddylunio i fod yn bwerus ac yn hawdd ei ddefnyddio. Gwneir y chwiliad yn bosibl gan ddarn o galedwedd ('teclyn' chwilio) sy'n cael ei blygio i mewn i'n serfiwr ac sy'n mynegeio cynnwys ein gwefan yn barhaus. Mae'r teclyn yn trafod pob cais chwilio, ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i unrhyw drydydd parti.

Os ydym eisiau casglu gwybodaeth y gellir adnabod rhywun yn bersonol ohoni trwy ein gwefan, byddwn yn dweud hyn yn glir. Byddwn yn esbonio hynny'n glir pan fyddwn yn casglu gwybodaeth bersonol, a byddwn yn esbonio'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud â'r wybodaeth.

## Unigolion a gyflogir gan Estyn

Mae unigolion a gyflogir gan Estyn yn cynnwys ymgeiswyr am swydd, a'n cyflogeion/secondeion presennol ynghyd â'n cyn-gyflogeion/secondeion.

Pan fydd unigolion yn gwneud cais i weithio i Estyn, dim ond i brosesu'u cais ac i fonitro ystadegau recriwtio y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddant i ni. Pan fyddwn eisiau datgelu gwybodaeth i drydydd parti, er enghraifft pan fyddwn eisiau

holi am eirda neu gael ‘datgeliad’ gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, ni fyddwn yn gwneud hynny heb eu hysbysu o flaen llaw.

Bydd gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw yn unol â’n hatodlen gadw http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_records_retention_policy_and_schedule_march_2008.pdf, bydd yn cael ei dinistrio neu’i dileu wedyn. Rydym yn cadw gwybodaeth ystadegol wedi’i dadbersonoli am ymgeiswyr er mwyn helpu i lywio ein gweithgareddau recriwtio, ond ni ellir adnabod unrhyw unigolion o’r data hwnnw.

Pan fydd unigolyn wedi dechrau gweithio gydag Estyn, byddwn yn llunio ffeil gofrestredig yn ymwneud â’i gyflogaeth. Bydd y wybodaeth a gynhwysir yn y ffeil yn cael ei chadw’n ddiogel, a dim ond at ddibenion sy’n uniongyrchol berthnasol i gyflogaeth yr unigolyn hwnnw y caiff ei defnyddio. Casglwn wybodaeth ystadegol wedi’i dadbersonoli am gyflogeion er mwyn helpu i lywio ein gweithgareddau, e.e. gwybodaeth yn ymwneud â throsiant staff, absenoldeb salwch a hyfforddiant a datblygiad staff, ond ni ellir adnabod unrhyw unigolion o’r data hwnnw. Mae angen i ni hefyd rannu gwybodaeth bersonol am ein cyflogeion gyda chyrff eraill er mwyn darparu gwasanaethau penodol iddynt, er enghraifft, rhannwn wybodaeth am gyflogeion gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a’u hasiantau er mwyn gallu cyfrifo cyflogau a phensiynau yn gywir.

Pan ddaw cyflogaeth unigolyn gydag Estyn i ben, byddwn yn cadw’r ffeil yn unol â gofynion ein hatodlen gadw http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_records_retention_policy_and_schedule_march_2008.pdf ac yna’i ei dinistrio neu’i dileu.

## Unigolion a ddefnyddir gan Estyn dan gontract neu gytundeb

Mae unigolion a ddefnyddir gan Estyn dan gontract neu gytundeb yn cynnwys ymgeiswyr ar gyfer rolau arolygwyr annibynnol (Arolygwyr cofrestredig, arolygwyr tîm ac arolygwyr lleyg), arolygwyr ychwanegol, aseswyr cymheiriaid ac enwebeion, ac unigolion presennol a chyn-unigolion a ddefnyddir yn y rolau hyn.

Pan fydd unigolion yn gwneud cais i weithio dan gontract neu gytundeb i Estyn, defnyddiwn y wybodaeth a roddant i ni i brosesu’u cais cychwynnol ar gyfer hyfforddiant, ac yna i’w defnyddio ar waith arolygu neu waith yn gysylltiedig ag arolygu. Pan fyddwn eisiau datgelu gwybodaeth i drydydd parti, er enghraifft, pan fyddwn eisiau cael ‘datgeliad’ o’r Swyddfa Cofnodion Troseddol neu drosglwyddo gwybodaeth i gontractiwr arolygu ysgolion iddynt ddefnyddio’r unigolyn ar arolygiad, ni fyddwn yn gwneud hynny cyn eu hysbysu o flaen llaw.

Bydd gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw yn unol â’n polisi cadw http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_records_retention_policy_and_schedule_march_2008.pdf, bydd yn cael ei dinistrio neu’i dileu wedyn. Gallwn gadw gwybodaeth ystadegol wedi’i dadbersonoli am ymgeiswyr er mwyn helpu i lywio ein gweithgareddau arolygu a defnyddio, ond ni ellir adnabod unrhyw unigolion o’r data hwnnw.

Pan fydd unigolyn wedi'i dderbyn i weithio i Estyn dan gontract neu gytundeb, byddwn yn llunio ffeil gofrestredig yn ymwneud â'i ddefnyddio. Bydd y wybodaeth a gynhwysir yn y ffeil yn cael ei chadw'n ddiogel, a dim ond at ddibenion sy'n uniongyrchol berthnasol i ddefnyddio'r unigolyn hwnnw y caiff ei defnyddio. Bydd angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol hefyd ar gyfer talu am wasanaethau mewn perthynas â defnyddio'r unigolyn hwnnw. Casglwn wybodaeth ystadegol wedi'i dadbersonoli am unigolion er mwyn helpu i lywio ein gweithgareddau, e.e. gwybodaeth yn ymwneud â'r niferoedd sy'n cael eu defnyddio ar arolygiad, ond ni ellir adnabod unrhyw unigolion o'r data hwnnw.

Pan fydd gwaith unigolyn gydag Estyn wedi dod i ben, byddwn yn cadw'r ffeil yn unol â gofynion ein hatodlen gadw, ac yna'n ei dinistrio neu'i dileu wedyn.

## Mynediad i wybodaeth bersonol

Mae Estyn yn ceisio bod mor agored â phosibl o ran rhoi mynediad i bobl at eu gwybodaeth bersonol. Yn amodol ar eithriadau penodol, mae gennych hawl i gael gwybod os ydym yn cadw unrhyw ddata personol amdanoch, a hawl i gael copi o'r wybodaeth honno. Os penderfynwch eich bod eisiau copi o'r wybodaeth honno, mae'n rhaid i ni roi disgrifiad i chi o'r data, gan gynnwys esboniad o unrhyw dermau annealladwy, dweud wrthych o le y cawsom y data, rhoi esboniad i chi am unrhyw benderfyniadau awtomataidd yr ydym wedi'u gwneud gan ddefnyddio'r data, dweud wrthych at ba ddibenion y proseswn y data, a dweud wrthych a ydym wedi datgelu'r data hwn i barti arall.

Gall unigolion ganfod a ydym yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol trwy wneud 'cais gwrthrych am wybodaeth' o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

I wneud cais i Estyn am unrhyw wybodaeth bersonol y gallwn fod yn ei chadw, mae angen i chi gysylltu â'n Swyddog Gwybodaeth, gan ddefnyddio'r manylion cysylltu a roddir isod. Rhaid i geisiadau am wybodaeth gael eu gwneud trwy lenwi ffurflen cais gwrthrych am wybodaeth, a rhaid anfon ffi o £10 gyda'r ffurflen, yn daladwy i Estyn. Mae Polisi Diogelu Data Estyn a'r ffurflen cais gwrthrych am wybodaeth http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_Data_Protection_Policy_2007.pdf yn rhoi mwy o wybodaeth.

Lle bo modd, ac os cytunwch chi, byddwn yn ceisio delio â'ch cais yn anffurfiol, er enghraifft, trwy ddarparu'r wybodaeth benodol y mae ei hangen arnoch dros y ffôn.

Os ydym yn cadw gwybodaeth amdanoch, gallwch ofyn i ni newid, diweddaru neu gywiro'ch manylion, a hynny, eto, drwy gysylltu â'r Swyddog Gwybodaeth.

## Datgelu gwybodaeth bersonol

Mewn llawer o amgylchiadau ni fyddwn yn datgelu data personol heb gydsyniad. Fodd bynnag, pan fyddwn yn ymchwilio i gŵyn, er enghraifft, bydd angen i ni rannu gwybodaeth bersonol gyda'r unigolion dan sylw ac â phartïon perthnasol eraill. Byddwn yn cyfyngu manylion y gŵyn a'r ymchwiliad iddi i'r rheiny sy'n delio â hynny, ond efallai na fydd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 bob amser yn caniatáu i ni

gadw cyfrinachedd. Mae mwy o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gael ym Mholisi Rhyddid Gwybodaeth Estyn http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_FoIAct.pdf.

## Dolenni i wefannau eraill

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cwmpasu'r dolenni ar y safle sy'n cysylltu â gwefannau eraill. Fe'ch anogwn i ddarllen y datganiadau preifatrwydd ar y gwefannau eraill y trowch atynt.

## Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Drafftiwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn gan roi ystyriaeth i grynoder ac eglurder. Nid yw'n rhoi manylion trwyadl am holl agweddau arfer Estyn o gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Rydym yn hapus, fodd bynnag, i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd eu hangen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn i gyfeiriad Estyn isod.

Adolygwn ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd, a byddwn yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon. Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 9 Hydref 2009.

## Cwynion neu ymholiadau

Mae Estyn yn ceisio cyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, cymerwn unrhyw gŵynion a dderbyniwn ynglŷn â hyn yn ddifrifol iawn. Os yw pobl o'r farn fod ein harfer o gasglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol, anogwn hwy i ddod â hyn i'n sylw. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw awgrymiadau er mwyn ein helpu i wella'n gweithdrefnau.

I gael mwy o wybodaeth, cyfeiriwch at weithdrefn adborth a chwynion Estyn http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_Final_Feedback_and_Complaints_Leaflet_V7_February_2009.pdf .

## Sut i gysylltu â ni

Gellir e-bostio ceisiadau am wybodaeth am ein hysbysiad preifatrwydd at y Swyddog Gwybodaeth yn ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk neu drwy ysgrifennu at:

Swyddog Gwybodaeth
Estyn,
Llys Angor,
Heol Keen,
Caerdydd.
CF24 5JW

Ffôn: 02920 446 446
Ffacs: 02920 446 448

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

Pan ofynnwn i chi am wybodaeth, byddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1998. I gael cyngor annibynnol ynglŷn â materion mynediad at wybodaeth a diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 02920 448 044
Ffacs: 02920 448 045
E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y wybodaeth y mae Estyn yn ei chyhoeddi trwy gyfeirio at ein cynllun cyhoeddi http://www.estyn.gov.uk/about_estyn/cy_estyns_publication_scheme_december_2008.pdf.